

Y Chwarelwyr

Roedd y chwarelwyr yn falch iawn o'u gallu i adnabod y graig. Y gred gyffredinol oedd 'bod yn rhaid bod yn Gymro i ddeall y graig gan nad oedd y graig yn deall Saesneg'.

Roedd y chwarelwyr yn cyfrif am 50% o'r gweithlu.

Defnyddiant bowdwr gwn, trosolion, morthwylion a chynion i ffrwydro a gweithio'r llechi o'r mynydd. Gweithiant mewn criwiau o rhwng pedwar a chwech o ddynion, gan daro bargaen â rheolwyr y chwarel. Fel arfer, mewn un criw, roedd dau greigiwr, holltwr a naddwr. Byddai'r creigiwr yn gyfrifol am weithio wyneb y chwarel, ac yn gyfrifol am ddrilio tyllau a gosod

y powdwr ynddynt. Yna, gyda throsol, buasent yn tynnu'r slabiau anferth a oedd wedi'u llacio gan y ffrwydrad tra'n hongian oddi ar wyneb y graig gyda dim ond rhaff wedi'i chlymu am eu coesau i'w dal. Roedd y fargen yr oeddynt yn ei chael yn dibynnu ar yr amrywiaeth yn ansawdd y graig a byddai'r ddwy ochr yn honni fod y safon o blaid y naill ochr. Ond gallai trefniant o'r fath olygu fod y chwarelwyr mewn dyled i reolwyr y chwarel ar ôl talu am raffau, cadwyni ac offer. Yn yr un modd, roedd y rheolwyr o'r farn ei fod yn arwain at arferion caeth yn y chwarel a'i fod yn gostwng cynhyrchiant. Parhaodd y fargen hyd at ar ôl yr Ail Ryfel Byd.



Creigiwr wrth ei waith

Roedd y chwarelwyr yn adnabyddus am eu hoffter o yfed te. Dywedodd meddyg yn ysbyty chwarel y Penrhyn, 'maent yn hoff o de a choffi yn y chwarel ac nid yw'n croesi eu meddwl i gymryd unrhyw beth arall'. Byddai'r te wedi mwydo am hanner awr neu fwy cyn i'r dynion ddod i mewn i'w yfed.



Chwarelwyr Y Penrhyn 1913

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.